# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar y 10ed o Fai 2021
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Cyfarfod Blynyddol:**

**Cofnodion:**

Darllenwyd cofnodion Mis Mehefin 2020 gan y Cadeirydd a'u cafwyd yn gywir. Aethpwyd ymlaen i benodi'r Cynghorydd Eiddwen Merritt yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Wyn Evans yn Is-Gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf.

**Cyfarfod Misol**

**Presennol:**

Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadeirydd), Gerallt Davies, Ruby Williams a Wyn Evans.

.

**Hefyd yn bresennol:**

Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Ein Cynghorydd Sir Marc Davies, Cynghorwyr Wyn Jones, Jocelyn Andrew, Carys Morgan a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:**

Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**

Darllenwyd cofnodion Mis Ebrill a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion**

Dim.

**Mater cynllunio:**

Dim.

**Adnewyddu Ffi Diogelu Data:**

£40.00.

**Cyfrifon i ddiwedd y flwyddyn:**

Cafwyd y cyfrifon y Cyngor lan i 31 Mawrth 2021 eu derbyn a'I cymeradwyo.

**Unrhyw Fater Arall:**

Paswyd yn unfrydol i ddanfon blodau a charden gyda'n dymundiadau gorau am wellhad buan i'r Cynghorydd Carys Morgan ar ol ei llaw driniaeth yn ddiweddar.

Roedd un o drigolion Derwen Gam wedi gwneud cais i gael golau ar bwys y tai newydd sydd wedi eu adeiladu ar y ffordd allan tuag at Neuaddlwyd, paswyd iddo ail wneud y cais yn ysgrifenedig ac i ddweud pwy roedd yn cynrychioli.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05.

Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 8fed o Fehefin.